# 34. Creu Wal Fideo


## Cyflwyniad

Gellir defnyddio waliau fideo i ddangos nifer o fideos ar un dudalen mewn grid taclus. Ni chaiff y fideos eu hunain eu llwytho tan y bydd defnyddiwr yn clicio ar un - bydd hyn yn osgoi arafu'r dudalen gyda nifer o fideos yn llwytho. Gall defnyddwyr glicio ar fideo o'u dewis a bydd y fideo'n ymddangos mewn naidlen iddynt ei wylio.

Bydd y wal fideo'n aildrefnu ei hun ar gyfer sgriniau symudol neu os yw porwr y defnyddiwr mewn ffenestr lai.

Gall Waliau Fideo **gael eu creu gan Gymedrolwyr yn unig** oherwydd mae angen creu adran newydd, ond os oes gennych chi un yn eich safle eisoes, gellir ei golygu gan Gyfranwyr a Chymedrolwyr.

## Wal Fideo Enghreifftiol



# Creu Wal Fideo

## Ychwanegwch gynnwys lle'r hoffech i'r wal fideo ymddangos


1. Agorwch yr adran yn y CMS lle'r hoffech i'r wal fideo ymddangos.

2. Cliciwch ar y tab **Content**.

3. Cliciwch ar **Add content** a dewiswch **'Display Video Wall'**

> **Pwysig**: Os nad ydych chi'n gweld y templed cynnwys hwn yn y rhestr, bydd angen i chi gysylltu â Thîm y We i ofyn iddynt alluogi'r templed ar gyfer waliau fideo.

4. Dangosir y templed **'Display Video Wall'**:




5. Rhowch enw i'r darn o gynnwys.


6. Cliciwch ar **Save changes** i gadw'r cynnwys.

7. Os oes angen, efallai y bydd rhaid i chi drefnu'r cynnwys yn eich adran er mwyn i'ch fideo ymddangos yn y lle iawn ar y dudalen. Gweler [Taflen Wybodaeth 8]() i gael rhagor o wybodaeth am aildrefnu cynnwys.


# Ychwanegwch eitemau'r Wal Fideo

8. Ewch yn ôl i'r Strwythur Safle a dewch o hyd i'r adran lle'r hoffech i'r wal fideo ymddangos.

9. Cliciwch ar y botwm '**Actions**' ar y dde i'r adran yr ydych wedi'i dewis, a bydd y ddewislen '**Actions**' yn ymddangos. Dewiswch **'Create section'**.




10. Bydd y dudalen ***General Section Details*** yn ymddangos:




11. Teipiwch **video-wall** fel enw'r adran. Mae'n bwysig defnyddio'r geiriad cywir, neu ni fydd y wal fideo'n gweithio.

12. Tynnwch y tic oddi ar y blwch ticio "**Show in navigation**" er mwyn i'r adran beidio ag ymddangos yn y ddewislen ar y chwith.

13. Cliciwch ar y botwm **Save changes** ar waelod y sgrin

14. Bydd y system yn mynd â chi'n ôl i dudalen strwythur y safle

15. Cliciwch ar y symbol plws i ehangu eich adran er mwyn i chi allu gweld eich adran wal fideo newydd


16. Cliciwch ar yr adran **video-wall**

**17.** Cliciwch ar y tab **Content**

18. Cliciwch ar **Add content** a dewiswch **'Video Wall Item'**

> **Pwysig**: Os nad ydych chi'n gweld y templed cynnwys hwn yn y rhestr, bydd angen i chi gysylltu â Gwasanaethau Gwybodaeth i ofyn iddynt alluogi'r templedi angenrheidiol ar gyfer waliau fideo.

19. Bydd y templed yn ymddangos:




20. Rhowch enw i'r eitem. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r un testun ag a fydd yn ymddangos i'r defnyddiwr, er mwyn i chi weld pa eitem yw pa un yn y rhestr gynnwys.


21. Teipiwch neu ludo'r Cod YouTube i'r blwch **'YouTube Code'**. Dyma ran olaf y cyfeiriad YouTube ar gyfer y fideo, ar ôl y v=. Er enghraifft ar gyfer y

cyfeiriad YouTube [https://www.youtube.com/watch?v=Ff_JHihNbyU](https://www.youtube.com/watch?v=Ff_JHihNbyU), byddwch angen rhoi Ff_JHihNbyU yn unig.

22. Ychwanegwch y testun yr hoffech iddo ymddangos gyda'r fideo yn y blwch '**Title**'
23. Cliciwch ar **Save changes** i orffen.
24. **Ailadroddwch hyn ar gyfer yr holl fideos yr hoffech eu dangos yn wal fideo.**

## Gwiriwch sut mae'r wal fideo'n edrych

25. Pan fyddwch wedi gorffen ychwanegu eich eitemau ar gyfer y wal fideo, ewch yn ôl i Strwythur y Safle.
26. Cliciwch ar y botwm **Actions** ar gyfer yr adran ble bydd y wal fideo'n ymddangos. Dewiswch **'Preview section'**.
27. Sicrhewch fod y wal fideo'n ymddangos fel yr hoffech iddi:




28. Cofiwch y bydd angen i chi gymeradwyo'r cynnwys yr ydych wedi'i greu er mwyn i'r ddewislen luniau newydd ymddangos ar y weddalen fyw.